Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gŵyr

**Talbot Street**
**Tre-gŵyr**
**Abertawe**
**SA4 3DB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Gŵyr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Gŵyr |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1113 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 945 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 168 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.2%) | 7.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 17.8%) | 16.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 27.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/02/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Cymuned ofalgar, Gymreig a hapus yw Ysgol Gyfun Gŵyr lle mae disgyblion a staff yn dangos balchder yn eu hysgol. Mae'r pennaeth, uwch arweinwyr a staff yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth amlwg i gefnogi lles ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gynhwysiant, parch a chodi dyheadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn waraidd o amgylch yr ysgol, maent yn groesawgar a chwrtais ac yn barod eu sgwrs gydag ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn glir ynghylch at bwy i droi pan fydd angen cymorth a chefnogaeth arnynt ac maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gref maent yn ei derbyn. Mae cyfran uchel o ddisgyblion yn datblygu medrau arwain gwerthfawr, a thrwy waith y cyngor ysgol a'r gweithgorau amrywiol, maent yn codi ymwybyddiaeth eu cyfoedion o faterion pwysig fel parchu amrywiaeth, hawliau a phroblemau cymdeithasol. Gwna disgyblion y chweched dosbarth gyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol ac maent yn meddu ar fedrau cymdeithasol aeddfed.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd lu i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi'r addysg. Yn y clybiau hyn, mae disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol neu i fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol neu ymarfer corff. Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion iau ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol trwy'r gwersi iechyd a lles. Mae'r gwersi lles corfforol, lles maeth a lles cyfannol wedi'u cynllunio'n grefftus ac yn cynnig ystod werthfawr o brofiadau dysgu pwrpasol sy'n helpu'r disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr iach, hyderus ac annibynnol. Mae hon yn nodwedd gref o'r cwricwlwm.

Yn y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, ceir cynllunio gofalus sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn cynnig her briodol iddynt. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ddigon effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae'r uwch dîm arwain yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn gosod pwysigrwydd sylweddol ar feithrin ethos gofalgar a chynhaliol. Mae'r cyfrifoldebau ar draws y tîm arwain yn gorgyffwrdd ychydig ac mae hyn yn rhwystro arweinwyr rhag mynd i'r afael yn llawn â gwella'r addysgu a'r dysgu. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn rhan o'r broses i werthuso gwaith yr ysgol ac nid oes rhychwant digon eang o weithgareddau i sicrhau bod arweinwyr yn cael darlun cyflawn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Nid ydynt yn arfarnu'r addysgu gan ystyried ei effaith ar ddysgu yn ddigon manwl.

Mae trefniadau diogelu plant yn briodol ac mae'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae safle'r ysgol yn eang ac yn agored ac mae ychydig o faterion iechyd a diogelwch yn sgil hyn yn achos pryder. Mae ansawdd adeilad 'Y Tŷ' yn dirywio ac nid yw'n ateb gofynion nac anghenion y disgyblion sy'n ei fynychu.

## Argymhellion

A1 Gwella'r diffygion a nodir am yr addysgu yn yr adroddiad

A2 Sicrhau bod gan arweinwyr ar bob lefel gyfrifoldebau clir a strategol i yrru gwelliannau ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau bod yr holl arweinwyr yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd gan gryfhau eu gallu i arfarnu effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion

A4 Gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r gwersi lles corfforol, lles maeth a lles cyfannol sy'n cael eu cyflwyno i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ddysgu blaenorol ac maent yn llwyddo i gymhwyso hyn mewn cyd-destunau newydd ac anghyfarwydd. Mewn ychydig o achosion, lle mae'r addysgu'n hynod o effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn ac yn dangos dealltwriaeth arbennig o drylwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn bennaf oherwydd diffygion yng nghynllunio'r athrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ystyriol ar gyflwyniadau gan eu hathrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth siarad ac yn barod iawn i gyfrannu ar lafar, gan gynnig atebion estynedig yn aml. Maent yn cydweithio'n effeithiol mewn grwpiau trafod gan rannu eu syniadau'n frwdfrydig. Mae disgyblion uwch eu gallu yn siaradwyr rhugl a hyderus sy'n cyfrannu'n synhwyrol at drafodaethau gan ddefnyddio ystod eang o eirfa yn y Gymraeg a Saesneg. Mae ychydig o ddisgyblion yn tueddu i gynnig atebion llafar byr, heb eu datblygu'n llawn. Yn aml, mae hyn oherwydd natur holi'r athro. Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn troi at ei gilydd a thrafod yn Saesneg ble mae disgwyl iddynt drafod yn y Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen buddiol wrth gasglu gwybodaeth a lleoli ffeithiau mewn testunau estynedig. Gall llawer gyfuno tystiolaeth o ystod o ffynonellau i ddod i gasgliadau synhwyrol, er enghraifft wrth drafod pynciau fel gordewdra yng ngwersi Bagloriaeth Cymru. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu canfod negeseuon sydd ymhlyg mewn testunau'n yn gywir, er enghraifft wrth ddadansoddi ffynhonnell ddarluniadol 'Gin Lane' gan Hogarth mewn gwersi hanes. Pan mae cyfleoedd yn codi, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddarllen ar goedd. Maent yn amrywio goslef eu llais yn effeithiol i gyd-fynd â gofynion y darn, er enghraifft wrth ddarllen golygfa rhwng Wes ac Els o'r ddrama 'Crash'. Mae gan ddisgyblion mwy galluog uwch fedrau darllen soffistigedig. Maent yn adnabod nodweddion arddull ac yn trafod eu heffaith ar y darllenydd yn grefftus.

Mae llawer yn arddangos medrau ysgrifennu cadarn ac yn ysgrifennu'n effeithiol at ddibenion gwahanol. Maent yn strwythuro brawddegau a pharagraffu'n briodol yn y Gymraeg a Saesneg. Er enghraifft, yn y mewn gwersi daearyddiaeth, llwydda'r disgyblion i ysgrifennu areithiau effeithiol am ddatgoedwigo. Mae gan y disgyblion mwyaf galluog eirfa gyfoethog a soffistigedig ac maent yn mynegi eu barnau'n fedrus ac yn huawdl. Fodd bynnag, mae cystrawen letchwith, gwallau gramadegol a geiriau Saesneg yn britho gwaith ysgrifenedig lleiafrif y disgyblion. Maent yn cael trafferthion wrth fynegi eu syniadau a'u canfyddiadau mewn ffordd resymegol a chlir am nad ydynt yn cael digon o arweiniad na chyfarwyddiadau penodol gan eu hathrawon pwnc ar sut i strwythuro'u gwaith.

Mewn gwersi mathemateg a phynciau perthnasol eraill, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn llwyddiannus. Mae ganddynt afael gadarn ar gysyniadau rhif ac yn eu defnyddio'n hyderus, er enghraifft wrth wneud cyfrifiadau. Mae'r rhan fwyaf yn gallu defnyddio medrau trin data yn effeithiol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r cymedr i gymharu dwy set o ddata. Mae llawer yn llunio graff gwasgariad ac ychwanegu llinellau ffit gorau yn addas. Pan gânt gyfle, mae'r disgyblion hyn yn dadansoddi graffiau'n synhwyrol. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o fesurau cyfansawdd fel buanedd a dwysedd poblogaeth yn eu gwersi gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae tua hanner y disgyblion yn datblygu medrau mwy datblygedig fel ad-drefnu fformiwlâu. Nid yw lleiafrif y disgyblion yn hyderus wrth gymhwyso a datblygu eu medrau rhif mewn cyd-destunau newydd gan eu bod yn or-ddibynnol ar ddulliau cyflym sy'n eu caniatáu i ganfod atebion heb orfod deall rhesymeg gweithio allan.

Yn eu gwersi technoleg gwybodaeth, ac yn y cyfleoedd sydd ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mewn gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio taenlenni i greu graffiau gwasgariad a datrys fformiwlâu, ac mewn gwersi Cymraeg, mae disgyblion yn creu podlediadau ar faterion cyfoes.

Mae'r disgyblion sy'n mynychu uned arbenigol yr awdurdod, sydd ar gampws yr ysgol, 'Y Tŷ', yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u galluoedd a'u hanghenion penodol. Mae bron pob un yn ymgysylltu'n dda â thasgau ac yn dangos balchder yn eu cyflawniadau. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu'r hyder i fynychu gwersi yn y brif ffrwd er mwyn dilyn cyrsiau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau meddwl cadarn. Pan gânt y cyfle, maent yn defnyddio'u medrau meddwl yn gelfydd, er enghraifft mewn gwersi daearyddiaeth

wrth adnabod beth sydd gan Capten Scott, Elon Musk a Syr David Attenborough yn gyffredin. Mae llawer yn arddangos medrau corfforol priodol, er enghraifft wrth werthuso a gwella eu techneg wrth chwarae badminton neu bêl-foli. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth arbrofi a defnyddio gwrthrychau amrywiol er mwyn atgyfnerthu eu gwaith ymarferol yn y gwersi drama.

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn ddysgwyr brwd a chyfrifol. Mae llawer ohonynt yn mynegi eu hunain yn effeithiol ar lafar wrth drafod eu gwaith a'u cyfraniad i fywyd yr ysgol. Gwna disgyblion y chweched dosbarth gynnydd cryf yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gŵyr yn falch o berthyn i gymuned ddiogel a gofalgar ac yn mwynhau dod i'r ysgol yn ddyddiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud nad ydynt yn cael eu bwlio ac maent yn gwybod at bwy i droi petai rywbeth yn achos pryder iddynt. Maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt gan eu hathrawon, y tîm lles a staff cefnogol yn ogystal â'r ddarpariaeth yng nghanolfannau 'Trobwynt', 'Gilfach' ac 'Encil'. Mae bron pob un o ddisgyblion y ganolfan arbenigol 'Y Tŷ' yn mwynhau'r ysgol, yn teimlo'n ddiogel, yn cael cefnogaeth dda mewn gwersi ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn waraidd o amgylch yr ysgol adeg egwyl, cinio ac wrth symud ar hyd y coridorau. Mae bron pob un yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon, yn setlo'n gyflym ac ymgysylltu â'r dasg gychwynnol yn briodol. Mae llawer yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn dyfalbarhau i gwblhau gweithgareddau. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn canolbwyntio'n ddigon da ar eu gwaith gan sgwrsio â chyfoedion yn lle dyfalbarhau ar dasgau a'u cwblhau hyd eithaf eu gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol, a lles emosiynol yn y gwersi lles corfforol, lles cyfannol a lles maeth. Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol fel badminton, pêl-droed a hoci. Mae niferoedd uchel o ddisgyblion yn mynychu clybiau amrywiol yn rheolaidd. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan ddisgyblion. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a phrofiadau corfforol, creadigol, diwylliannol a dysgu ychwanegol sydd ar gael iddynt.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth trwy'r cyngor ysgol a'r gweithgorau amrywiol. Mae'r gweithgorau hyn yn gweithio'n ddiwyd ac yn codi ymwybyddiaeth eraill o faterion pwysig fel peryglon fepio, hawliau menywod a phwysigrwydd codi arian at elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn cyfrannu'n llawn tuag at fywyd a chymuned yr ysgol. Maent yn meddu ar fedrau cymdeithasol cadarn ac yn arwain a dylanwadu'n bositif ar ddisgyblion iau'r ysgol, er enghraifft trwy eu cynorthwyo gyda'u hastudiaethau Ffrangeg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ag ymwelwyr ac yn rhannu eu barn yn hyderus.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol gyfan yn gyson dros y ddwy flynedd diwethaf ond yn parhau i fod ychydig yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ychydig yn is na'u cyfoedion.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r berthynas waith gefnogol a chadarnhaol rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn nodwedd gref o fewn yr addysgu. Mae llawer o athrawon yn gosod disgwyliadau uchel i'r disgyblion ac yn sefydlu arferion cyson a threfnus o fewn y dosbarth sy'n hybu naws weithgar a chynhaliol. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio strategaethau rheolaeth dosbarth effeithiol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fân darfu.

At ei gilydd, mae llawer o athrawon yn cynllunio dilyniant o weithgareddau buddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd. Maent yn darparu adnoddau defnyddiol ac yn holi'r disgyblion yn gyson er mwyn profi gwybodaeth a gwirio dealltwriaeth o ddysgu blaenorol. Mae mwyafrif yr athrawon yn atgoffa disgyblion i ddefnyddio iaith safonol yn y gwersi ac yn cywiro termau pwnc yn fwriadus. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r staff yn gyson o ran sicrhau bod trafodaethau grŵp yn digwydd yn  Gymraeg.

Mewn ychydig o achosion lle mae'r addysgu'n hynod o effeithiol, mae'r athrawon yn egnïol ac yn ysbrydoli'r disgyblion i ddysgu. Maent yn cynllunio'r gweithgareddau yn gelfydd er mwyn adeiladu lefel yr her yn effeithiol ac yn sicrhau bod y gwaith yn cyfateb yn dda i ofynion disgyblion unigol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cyflwyno'n frwdfrydig gan ddefnyddio tempo sionc sy'n cadw disgyblion ar dasg ac yn cyd-fynd yn effeithiol iawn â'u cynnydd. Mae'r athrawon hyn yn holi disgyblion yn fedrus ac yn eu hannog i gyfiawnhau neu ymestyn eu hymatebion er mwyn procio eu dealltwriaeth.

Mewn ychydig o achosion, nid yw natur y tasgau na chyflymdra'r gwersi yn galluogi disgyblion i gyflawni eu potensial. Er enghraifft, nid yw'r athrawon yn cynnig lefel addas o her neu gymorth i ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Maent yn cynllunio cyfres o dasgau byrion er mwyn cadw disgyblion yn brysur yn hytrach nag ystyried beth sydd angen i'r disgyblion ei wybod, ei ddeall neu ei gyflawni. Mae ychydig o athrawon yn defnyddio cwestiynau caeedig yn unig ac nid ydynt yn procio meddwl disgyblion yn ddigonol. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae athrawon yn dibynnu ar yr un disgyblion i ateb cwestiynau.

Mae athrawon yn symud o amgylch y dosbarth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gorffen tasgau ac yn ymateb iddyn nhw'n briodol. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynnig adborth adeiladol ac amserol sy'n ddefnyddiol i'r disgyblion wella eu gwaith. Mewn ychydig o achosion, mae'r athrawon yn asesu dealltwriaeth yn hynod o effeithiol trwy gyfres o gwestiynau amserol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn canmol atebion cywir yn briodol er mwyn codi hyder a chymhelliant y disgyblion o fewn gwersi. Ar adegau, fodd bynnag, maent yn gor-ganmol atebion byr ac annatblygedig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn cynnig adborth perthnasol ar waith disgyblion. Maent yn adnabod meysydd sydd angen eu gwella ac yn rhoi targedau penodol i ddisgyblion er mwyn gwella'r gwaith. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn ymateb i'r adborth trwy ailddrafftio neu wella eu perfformiad. Ar adegau, nid yw'r sylwadau ysgrifenedig yn ddigon clir i arwain disgyblion i wella eu gwaith.

Cyflwynodd yr ysgol eu Cwricwlwm i Gymru ym Medi 2022, ar ôl cynllunio ac arbrofi. Yn sgil arfarnu a mireinio rheolaidd, mae'r cynlluniau'n cynnig ystod o brofiadau ysgogol a heriol i ddisgyblion ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae staff wedi gweithio'n agos â'u hysgolion partner cynradd i sicrhau trosglwyddo cwricwlaidd esmwyth. Maent hefyd yn datblygu meini prawf llwyddiant defnyddiol i asesu cynnydd disgyblion yn eu medrau a'u dealltwriaeth bynciol. Agwedd nodedig o gynllunio'r ysgol yw rhaglenni newydd, i'r disgyblion ieuengaf, sy'n cynnwys gwersi lles corfforol, lles maeth a lles cyfannol.

Yn gyffredinol, mae'r adrannau'n darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae cydlynwyr y medrau yn cynnig hyfforddiant defnyddiol i adrannau ar sut i addysgu agweddau penodol, er enghraifft ar sut i lunio graffiau gwasgariad. Fodd bynnag, mae'r gwaith o gydlynu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau cynnydd dros amser yn y medrau ar draws y pynciau yn dechrau datblygu.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth briodol o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 sy'n diwallu anghenion a diddordebau bron pob disgybl. Drwy gydweithio â cholegau cyfagos, gall disgyblion ddewis ychydig o gyrsiau galwedigaethol. Fodd bynnag, yn Saesneg yn unig mae'r ddarpariaeth hon. Mae staff yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion sydd mewn perygl o ddatgysylltu o'u hastudiaethau, i ymgymryd â phrofiadau gwaith fel plymwr a thrydanwr. Mae'r bartneriaeth rhwng Ysgol Gyfun Gŵyr ac ysgol gyfun Gymraeg arall yn cynnig amrediad eang iawn o gyrsiau i ddisgyblion y chweched dosbarth.

Mae disgyblion 'Y Tŷ' yn elwa o gwricwlwm wedi'i deilwra'n arbennig ar eu cyfer. Mae'r profiadau dysgu'n diwallu anghenion ystod eang o allu a diddordebau ac mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi'r disgyblion yn dda, er eu bod ar adegau yn gwneud gormod drostynt.

Mae'r ysgol yn cynghori disgyblion yn effeithiol i sicrhau eu bod yn dilyn y trywyddau mwyaf priodol iddynt ar gyfer y dyfodol. Caiff y disgyblion fynediad at swyddog gyrfaoedd a cheir ystod o weithgareddau defnyddiol sy'n ymwneud â byd gwaith, gan gynnwys rhai a ddarperir mewn gwersi Bagloriaeth Cymru. Mae disgyblion Blwyddyn 12 yn hunandrefnu wythnos o brofiad gwaith a disgyblion Blynyddoedd 11 a 13 yn cael cyfle i fod yn rhan o ffug gyfweliadau â chyflogwyr lleol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi'i chydlynu a'i threfnu'n fanwl. Mae ffocws buddiol ar nodweddion gwarchodedig, ac o ganlyniad, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth glir o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Tu hwnt i'r cwricwlwm, mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr ac amrywiol i ddisgyblion ddatblygu'u diddordebau, boed yn rhai corfforol neu ddiwylliannol. Mae rhain yn cynnwys clybiau chwaraeon, corau, bandiau, dramâu Shakespeare, clwb dawnsio, clwb codio, cerddorfa a chlwb carioci. Mae hefyd gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymestyn eu dysgu drwy wersi Lladin wedi'r diwrnod ysgol, clwb STEM, clwb 'olympiad cemeg' a'r 'Medclub' sy'n cynorthwyo disgyblion sydd â diddordeb mewn dilyn cwrs meddygaeth yn y brifysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n blaenoriaethu lles disgyblion mewn awyrgylch deuluol a chlos. Mae tîm effeithiol o staff yn sicrhau cefnogaeth bwrpasol a phersonol wedi'i theilwra'n fwriadus i fodloni anghenion unigol y disgyblion.

Mae'r penaethiaid blwyddyn a thîm arbenigol o staff bugeiliol yn cefnogi disgyblion i ddelio â'u hanghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol yn effeithiol. Lle bo'r angen, mae'r gefnogaeth briodol yn caniatáu i'r disgyblion ailafael yn eu dysgu, ailadeiladu eu hunanhyder a pharhau i wneud cynnydd. Yn ddiweddar, mae'r arweinwyr wedi aildrefnu'r system o dracio ymddygiad, datblygiad personol a threfn wobrwyo'r ysgol. Mae staff yn defnyddio deilliannau'r system hon i gyfathrebu llwyddiannau'r disgyblion, sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad o bositifrwydd i holl gymuned yr ysgol.

Mae'r cydweithio pwrpasol rhwng y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol [CADY] a'r tîm o gynorthwywyr ymroddedig yn sicrhau bod cefnogaeth effeithiol yn cael ei darparu i ddisgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Daw'r ysgol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy'r cysylltiadau cryf ag ysgolion partner cynradd. Mae'r CADY yn mynychu adolygiadau disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 er mwyn creu cyswllt â'r teuluoedd fydd yn sail gadarn i ddechrau'r daith yn yr uwchradd.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn wrth weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac mae'r cynlluniau addysg unigol yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion ynghyd â thargedau penodol. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd y disgyblion o'u mannau cychwyn unigol ac yn adrodd i rieni yn rheolaidd. Mae bwletin wythnosol defnyddiol i rannu gwybodaeth fuddiol am faterion ADY gyda staff a chynhelir sesiynau hyfforddiant achlysurol am wahanol anghenion a chyflyrau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cael digon o hyfforddiant ar strategaethau addysgu i gefnogi disgyblion sydd ag ADY.

Mae'r canolfannau cefnogaeth, sef yr 'Encil', 'Trobwynt', 'y Gilfach' a'r uned wella yn darparu ystod eang o ymyraethau a chefnogaeth bwrpasol ac mae'r disgyblion sy'n eu mynychu yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Er enghraifft, mae disgyblion ag anghenion emosiynol yn cael mynediad at ddarpariaeth benodol er mwyn eu cynorthwyo i ddelio â'u hemosiynau ac ymdopi â bywyd dyddiol. Derbynnir mewnbwn priodol oddi wrth nifer o asiantaethau a phartneriaid er mwyn sicrhau darpariaeth fuddiol.

Mae'r uned arbenigol, 'Y Tŷ', yn cynnig addysg i ddisgyblion uwchradd sydd ag ystod o anghenion addysg arbennig ac mae yna berthynas agos ac adeiladol rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u hanghenion unigol yn dda, ac o ganlyniad, yn gallu sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu. Mae disgyblion hŷn yr uned yn datblygu'r hyder i fynychu gwersi yn y prif lif er mwyn dilyn cyrsiau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r integreiddio hwn yn gryfder ac wedi ei gynllunio o gwmpas dyheadau'r disgyblion a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae ansawdd adeilad yr uned arbenigol yn dirywio ac mewn cyflwr gwael i fedru diwallu anghenion y disgyblion hyn.

Mae datblygu agweddau moesol a hybu goddefgarwch yn cael ei arddel yn gryf o fewn cymuned yr ysgol. Caiff negeseuon amserol a phynciau llosg eu cyflwyno'n sensitif gan staff a disgyblion hŷn yn y gwasanaethau a chyfnodau cofrestru. Mae'r ysgol wedi cynnal y traddodiad o gydganu emyn ac atgyfnertha hyn y diwylliant ysbrydol, moesol, cymdeithasol a Chymreig. Mae'r ysgol wedi gwerthuso a mireinio ei dulliau o ymateb i'r achosion prin o fwlio ac mae'r staff yn delio â'r materion hyn yn gyflym. Mae staff bugeiliol yn gwirio effaith eu gwaith drwy holi'r disgyblion i sicrhau bod unrhyw achos wedi ei ddatrys yn llwyddiannus. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion leisio eu barn ar fwlio ac ymatebir i holiaduron yn gyson.

Mae'r cyngor ysgol yn gynrychioladol o holl ddisgyblion yr ysgol ac yn gorff dylanwadol. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd buddiol i'r disgyblion drafod a dylanwadu ar gynnwys y sesiynau ABCh, er enghraifft hawliau LGHDT+, gwrth-hiliaeth, hawliau merched, Cymreictod ac e-ddysgu. Mae'r gwersi iechyd a lles wedi eu cynllunio'n ofalus i gwmpasu lles corfforol, lles cyfannol a lles maeth.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da. Ceir disgwyliadau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb drwy gyfathrebu cyson a thrylwyr rhwng yr arweinwyr lles, staff cefnogi a staff yr ysgol. Ceir tracio a monitro cyson er mwyn sylwi ar unrhyw resymau neu batrymau, gan weithredu arnynt yn fuan.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dirifedi i ddisgyblion ddatblygu eu lles corfforol ac emosiynol drwy gyfrwng y Gymraeg er enghraifft drwy fod yn rhan o dimau a chlybiau chwaraeon ac athletau, corau a gweithgareddau'r Urdd. Ceir cyfleoedd i fynychu sesiynau adolygu ac mae'r chweched dosbarth yn elwa o arweiniad gwerthfawr wrth ddatblygu medrau astudio annibynnol. Mae gwybodaeth am bynciau a llwybrau gyrfa fel prentisiaethau neu ddychwelyd i astudio yn yr ysgol yn cael ei rhannu'n glir â'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau manwl ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn ddiogel ac mae hyn wedi arwain at ddiwylliant cryf o ddiogelu. Mae staff a llywodraethwyr yn cael hyfforddiant buddiol, rheolaidd yn y maes hwn, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau. Mae staff yn cael hyfforddiant pwrpasol ar atal radicaleiddio yn rheolaidd ac yn deall sut i gyfeirio unrhyw faterion allai godi. Ceir trefniadau cadarn ar gyfer cofnodi a chyfeirio materion diogelu neu amddiffyn plant. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o wybodaeth berthnasol o amrywiol ffynonellau i adnabod disgyblion bregus a sicrhau eu bod yn monitro lles y disgyblion hyn yn ofalus.

Daeth nifer o faterion iechyd a diogelwch parthed adeilad y ganolfan addysg arbennig 'Y Tŷ' a safle'r ysgol i sylw'r tîm arolygu. Mae'r pennaeth yn ymwybodol o'r rhain ac yn cydweithio â'r awdurdod addysg lleol i'w datrys. Bydd yr ysgol yn derbyn llythyr lles i dynnu sylw at yr holl faterion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n ymgorffori ysbryd arwyddair yr ysgol, sef 'Gorau byw, cyd fyw', trwy ei ymrwymiad i greu ysgol gynhwysol. Llwydda i greu ethos teuluol Cymreig, gyda ffocws cadarn ar gydweithio i gefnogi lles ac addysg pob unigolyn. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar werthoedd cytûn sy'n cael eu rhannu

a'u gwireddu gan staff a llywodraethwyr yr ysgol. Mae cymuned yr ysgol yn deall pwysigrwydd sicrhau bod pob disgybl yn cael profiad addysgol cadarnhaol.

Mae'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n gytûn i gefnogi'r pennaeth a chyflawni eu dyletswyddau. Trwy eu hadnabyddiaeth dda o staff a disgyblion, maent yn llwyddo i gynnal awyrgylch gynhaliol, drws agored a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar les cymuned yr ysgol. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau'r uwch dîm arwain ac arweinwyr eraill yn dyblygu neu orgyffwrdd mewn ychydig feysydd pwysig sy'n eu cyfyngu o ran gweithio'n effeithiol.

Yn gyffredinol, llwydda arweinwyr i roi sylw teilwng i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf i weithredu ei gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Dros gyfnod, mae staff wedi datblygu, adolygu a mireinio'r ddarpariaeth yn synhwyrol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithredu'n bwrpasol er mwyn lleihau'r rhwystrau i ddysgu i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu gan deuluoedd incwm isel. Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir a phwrpasol i wella presenoldeb disgyblion ac mae diwylliant diogelu cadarn a ddeallir yn dda gan ddisgyblion, staff a llywodraethwyr.

Mae gan yr ysgol galendr addas o weithgareddau sicrhau ansawdd. Cynhelir gweithgareddau craffu ar waith a sesiynau llais y disgybl defnyddiol gan aelodau o'r uwch dîm arwain. Yn ogystal, mae llawer o arweinwyr canol yn cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd o fewn eu hadrannau unigol. Mae arweinwyr hefyd yn dadansoddi data'n ddilys. O ganlyniad, maent wedi lled adnabod blaenoriaethau i'w datblygu ac mae'r cynlluniau datblygu ysgol ac adrannol yn adlewyrchu'r rhain. Fodd bynnag, mae llawer o'r gweithredoedd o fewn y cynlluniau gwella yn ymwneud â chodi safonau a gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion Blwyddyn 11 yn unig ac nid oes digon o sylw i wella ansawdd yr addysgu a medrau'r disgyblion iau. Yn ogystal, mae'r drefn o gynnal teithiau dysgu yn ôl themâu penodol wedi rhwystro arweinwyr rhag caffael darlun cyflawn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Nid yw arweinwyr ar bob lefel felly'n cynnal amrediad digonol o weithgareddau i werthuso eu gwaith nac yn ystyried yn ddigonol yr effaith y mae addysgu yn ei chael ar safonau disgyblion. Er bod arweinwyr canol yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhyngddynt ag aelodau o'r uwch dîm arwain, mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi sylw i faterion gweithredol ar draul trafod dysgu ac addysgu.

Mae gan yr ysgol drefn rheoli perfformiad briodol ble mae arweinwyr ar bob lefel yn chwarae rhan weithredol. Trwy'r drefn hon a holiadur dysgu proffesiynol, mae arweinwyr yn adnabod anghenion dysgu proffesiynol staff yn dda. Mae rhaglen eang o gyfleoedd i ymateb i'r anghenion hyn sy'n cynnwys bwydlen amrywiol o sesiynau hyfforddiant mewnol, cyfleoedd i gydweithio ag ysgolion eraill a gwaith gyda darparwyr allanol. Darperir cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu fel arweinwyr trwy fynychu cyrsiau hyfforddiant perthnasol a chysgodi arweinwyr eraill i ddatblygu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau. Yn ogystal, mae'r ysgol yn darparu adnoddau dysgu proffesiynol defnyddiol megis bwletin addysgu a dysgu wythnosol, sesiynau 'Crynhoi Clou' ac ardal 'Dysgu ac Addysgu' ar wefan fewnol yr athrawon. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar ddysgu a chynnydd disgyblion yn ddigon miniog.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol. Maent yn awyddus i gyfrannu i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn barod iawn i roi o'u hamser. Mae'r

llywodraethwyr yn datblygu fel cyfeillion beirniadol gan gyfrannu'n werthfawr i waith amrywiol bwyllgorau ac fel aelodau cyswllt i adrannau a meysydd dysgu a phrofiad. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth addas o'u rôl i hyrwyddo bwyta ac yfed iach.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r dulliau a ddefnyddir i gyfathrebu â rhieni a gwarcheidwaid. Defnyddia system electronig i rannu gwybodaeth allweddol a dathlu llwyddiannau disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar berthynas yr ysgol â rheini. Yn ogystal, mae'r ysgol yn defnyddio gwefan yr ysgol a llwyfannau digidol eraill yn fuddiol i rannu gwybodaeth bwysig â chymuned yr ysgol.

Mae'r pennaeth a thîm busnes yr ysgol yn monitro gwariant a chyllideb yr ysgol yn ofalus. Mae llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth reolaidd am y sefyllfa ariannol ac maent yn ystyried blaenoriaethau'r ysgol yn bwyllog wrth wneud penderfyniadau gwario. Fel rhan o hyn, mae uwch arweinwyr yn rhoi ystyriaeth synhwyrol i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel. Er enghraifft, maent yn sicrhau cefnogaeth ariannol ar gyfer teithiau ysgol a gwersi offerynnol. Mae cynllun addas ar gyfer gwariant y Grant Datblygu Disgyblion yn 2023-2024. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y gwariant i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion yn ddigon miniog.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 18/12/2023